# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 23 Ebrill 2013** |
| Amser: | **09: – 11:00** |

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_23_04_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Jocelyn Davies** |
| Tystion: | **Adam Cairns, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**<br>**Richard Tompkins, Welsh NHS Employers' Unit**<br>**Sue Fish, Bwrdd Iechyd Hywel Dda (Saesneg yn unig)**<br>**Janet Wilkinson, Hywell Dda Health Board**<br>**Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Matthew Mortlock, Performance Specialist. WAO**<br>**Mike Usher, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Malcolm Latham, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)** |

## 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Gwyn Price.

## 2. Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd - Tystiolaeth gan y Bwrdd Iechyd

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Adam Cairns, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro; Janet Wilkinson, Cyfarwyddwr y Gweithlu, Bwrdd Iechyd Hywel Dda; Dr Sue Fish, Cyfarwyddwr Meddygol, Bwrdd Iechyd Hywel Dda; a Richard Tompkins, Cyfarwyddwr, Uned Cyflogwyr GIG Cymru.

2.2 Holodd y Pwyllgor y tystion.

**Camau i'w cymryd:**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro:

- Rhagor o wybodaeth am hysbyseb ym maes awyr Bryste yn hyrwyddo meddygfeydd preifat ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro;

Cytunodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Hywel Dda i ddarparu:

- Eglurhad am y broses rhwng yr ymarferydd cyffredinol a'r meddyg ymgynghorol i roi cleifion sydd ar restrau aros gyda Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Hywel Dda ar lwybr carlam.

## 3. Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar Reoli Grantiau ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r camau i'w cymryd a nodwyd yn y cyfarfod ar 19 Mawrth 2013.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

## 5. Contract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd - Ystyried y Dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd ar Gontract Meddygon Ymgynghorol yng Nghymru: Cynnydd o ran Sicrhau'r Manteision a Fwriadwyd.

## 6. Rheoli Grantiau yng Nghymru - Ystyried yr Adroddiad Drafft

6.1 Fe wnaeth Julie Morgan ddatgan diddordeb mewn Rheoli Grantiau yng Nghymru oherwydd bod ei gŵr yn gyn Brif Weinidog Cymru â’r cyfrifoldeb cyffredinol dros reoli grantiau yn ystod y cyfnodau sydd wedi eu hamlygu yn yr adroddiad drafft, ac eithriodd ei hun rhag cymryd rhan yn y trafodion.

6.2 Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ar ei adroddiad drafft ar Reoli Grantiau yng Nghymru a bydd yn rhoi rhagor o ystyriaeth i’r adroddiad mewn cyfarfod arall.

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.